# Anabledd Dysgu Cymru
## Adolygiad Blynyddol

Ebrill 2023 - Mawrth 2024



Rydym eisiau i Gymru fod y wlad orau i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio

Tu fewn: Pobl yr 21ain Ganrif, Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change, Hawdd ei Ddeall Cymru, Ffrindiau Gig Cymru, dylanwadu ar bolisi, hyfforddiant a digwyddiadau, Senedd Ieuenctid Cymru, cefnogi rhieni ag anabledd dysgu, lleihau arferion cyfyngol, a llawer mwy.

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Negeseuon o groeso | 3 |
| Ein staff | 5 |
| Hawdd ei Ddeall Cymru | 6 |
| Hyfforddiant a digwyddiadau | 8 |
| Dylanwadu ar bolisi | 10 |
| Dylanwadu a Hysbysu | |
| Engage to Change | 12 |
| Ffrindiau Gig Cymru | 15 |
| Pobl yr 21ain Ganrif | 18 |
| Ein hymddiriedolwyr a'n haelodau | 22 |
| Sut y gwaethom wario ein harian | 23 |
| Ein blwyddyn mewn lluniau | 24 |







## Cadwch mewn cysylltiad





Anabledd Dysgu Cymru, 41 Lambourne Crescent,
Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd CF14 5GG
Ffôn: 029 2068 1160 www.ldw.org.uk



Cwmni cyfyngedig drwy warant: 02326324
Elusen Gofrestredig: 1062858
Rhif Cofrestru TAW: 762 4559 11


| | | |
|---|---|---|
| E-bost | enquiries@ldw.org.uk | |
| Facebook | /learningdisabilitywales | |
| Twitter | @LdWales | |
| YouTube | /@LearnDisabilityWales | |
| LinkedIn | /learning-disability-wales | |
| Instagram | /learningdisabilitywales | |



# Neges o groeso

## Gan ein Cadeirydd, Tracy Hammond

### Uchafbwyntiau

- **Rydyn ni'n gweithio ar y cyd i wneud gwahaniaeth.**
- **Gallwch chi ddod yn aelod neu'n gefnogwr yn rhan ac am ddim a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith.**

**Rwyf wedi bod yn Gadeirydd Anabledd Dysgu Cymru ers ychydig fisoedd yn unig ac yn ystod y cyfnod hwn, rwyf wedi cael fy ysbrydoli'n barhaus gan y diwylliant o dryloywder a gwaith tîm sy'n rhan o bopeth a wnawn.**

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan fydd pobl yn cydweithredu. Mwynhewch ddarllen am y gwaith gwych a wnaed eleni, a'r dylanwad a'r effaith y mae wedi'u cael. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at wneud y 12 mis diwethaf mor llwyddiannus.

Yn adroddiad y llynedd, amlinellodd ein Cadeirydd blaenorol Jon Day y newidiadau gwleidyddol roeddem yn eu disgwyl a'r pwysau ariannol anochel a fyddai'n dod yn eu sgil. Rydym bellach yn byw drwy'r amserau hyn ac yn ddi-os, bydd y flwyddyn sydd i ddod yn cynnwys rhai adegau heriol. Fodd bynnag, mae ein gweledigaeth o wneud Cymru y wlad orau yn y byd i bobl ag anableddau dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio yn uchelgeisiol ac yn gyffrous. Ni fyddwn yn ymgadw rhag heriau'r dyfodol; yn hytrach, byddwn yn parhau



i wasanaethu, arloesi, cefnogi a siarad gwirionedd i rym.

Mae ein haelodau wrth wraidd popeth a wnawn, felly os ydych yn rhannu ein hangerdd a'n gweledigaeth ond nad ydych yn aelod neu'n gefnogwr eto, ymunwch â ni – mae'n rhad ac am ddim! Os ydych chi eisoes yn rhan o 'deulu' Anabledd Dysgu Cymru ac rydych yn dymuno cymryd mwy o ran, gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen ein cylchlythyr, ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol a dod i'n digwyddiadau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf. Mae croeso i chi hefyd gysylltu â ni gydag unrhyw gwestiynau.



# Neges o groeso

## Gan ein Prif Weithredwr, Zoe Richards

### Uchafbwyntiau

- **Rydym wedi gweithio ar y cyd i wneud yn siŵr nad yw pobl ag anabledd dysgu yn waeth eu byd nag yr oeddent cyn y pandemig.**
- **Rydym yn parhau i ddwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif.**

Wrth inni edrych yn ôl ar flwyddyn ryfeddol arall, rwy'n llawn balchder. Gyda'n gilydd, rydym wedi gweithio'n galed i gyflawni ein cenhadaeth i wneud Cymru y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio. Mae cefnogaeth, ymrwymiad a gwaith caled ein staff, gwirfoddolwyr, aelodau a chefnogwyr wedi helpu ein cyflawniadau.

Y flwyddyn hon, rydym wedi cefnogi ein gilydd i ymadfer ar ôl byw trwy bandemig ac i sicrhau nad yw pobl ag anabledd dysgu yn waeth eu byd nag yr oeddent o'r blaen.

Gwnaed hyn yn bosibl trwy grantiau a rhoddion ond hefyd gan ein staff a'n gwirfoddolwyr ymroddedig sy'n gweithio'n ddiflino i ysgogi newid. Mae eich gwaith yn drylwyr, yn onest ac yn cael ei barchu.

Mae'n adeg hollbwysig i ddwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif ac rydym yn parhau i ymuno â sefydliadau a rhanddeiliaid eraill i wneud i hyn ddigwydd.

Wrth inni symud ymlaen, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i dryloywder, partneriaeth ac arloesi. Byddwn yn parhau i gydweithio i greu newid parhaol yn ein cymunedau yng Nghymru a thu hwnt.


Diolch am fod yn rhan bwysig o'n cenhadaeth. Edrychaf ymlaen at y gwaith y byddwn yn ei gyflawni gyda'n gilydd yn y flwyddyn i ddod.





# Ein staff

## Polisi a Chyfathrebu



Kai Jones
Swyddog Cyfathrebu

Samantha Williams
Rheolwr Polisi a Chyfathrebu

Aled Blake
Swyddog Polisi a Chyfathrebu (o fis Tachwedd 2023)

Grace Krause
Swyddog Polisi (hyd at fis Medi 2023)

## Hyfforddiant a Digwyddiadau




Simon Rose
Rheolwr Digwyddiadau a Rhwydweithiau

Lucy O'Leary
Cydlynydd Digwyddiadau a Rhwydweithiau



Zoe Richards
Prif Swyddog Gweithredol

## Hawdd ei Ddeall Cymru




Laura Griffiths
Rheolwr Cyfathrebu Hygyrch

Inacia Rodrigues
Swyddog Cyfathrebu Hygyrch

Julie Jones
Swyddog Cyfathrebu Hygyrch

Rhian McDonnell
Swyddog Cyfathrebu Hygyrch

## Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change



Angela Kenvyn
Rheolwr Prosiect

Gerraint Jones-Griffiths
Llysgennad


## AD a Chyllid



Zhanar Tabeyeva
Rheolwr Cyllid

Joanne Moore
Rheolwr Adnoddau Dynol a Llywodraethiant

## Ffrindiau Gig Cymru



Karen Warner
Rheolwr Arloesedd

Kylie Smith
Cydlynydd De Cymru


Kai Jones
Cydlynydd De Cymru

John Butterly
Cydlynydd Gwirfoddolwyr Gogledd Cymru (o fis Ebrill 2023)

Danielle Wagstaff
Cydlynydd Gweinyddu a Chyfathrebu

Sian Lloyd-Davies
Cydlynydd Gogledd Cymru

## Y Tîm Cymorth



Iwan Good
Cydllynydd Aelodaeth, Digwyddiadau ac Ymgysylltu

Nicola Alsept
Gweinyddydd Cyllid

Michael Allcock
Glanhawr

Julie Jenkins
Cydlynydd Cymorth Gweinyddol (o fis Gorffennaf 2023)

# Hawdd ei Ddeall Cymru

**www.easyreadwales.org.uk**

## Uchafbwyntiau

- **Buom yn gweithio gyda 50 o sefydliadau ar fwy na 140 o ddarnau o waith hawdd ei ddeall.**
- **Lansiwyd adnoddau hawdd eu deall am ddim am y menopos.**
- **Cynhyrchwyd canllaw hawdd ei ddeall a fideo hygyrch am frechiadau.**
- **Diweddarwyd ein canllawiau ar gynhyrchu deunyddiau hawdd eu deall yn y Gymraeg.**

Hon oedd ein blwyddyn lawn gyntaf fel tîm o 4. Roedd ein llwyth gwaith yn debyg i'r llynedd, felly roedd modd inni ddibynnu llai ar weithwyr llawrydd a chanolbwyntio mwy ar ddatblygu ein gwasanaeth ac ansawdd ein gwaith.







Gwnaethom gynhyrchu ein prosiect print bras cyntaf ac roeddem hefyd yn gallu cynhyrchu rhai adnoddau hawdd eu deall am ddim. Ym mis Ebrill, gwnaethom greu llyfryn hawdd ei ddeall am ddim am System Rhybudd Brys newydd y DU. Gwnaethom ei hyrwyddo ar draws ein holl sianeli cyfryngau cymdeithasol a chafodd ei rannu'n eang a chafwyd ymateb da iddo.

Ym mis Chwefror lansiwyd cylchlythyr hawdd ei ddeall. Gwnaethom gynnig gostyngiad i bobl ar ein gwasanaeth hawdd ei ddeall, rhannu gwybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud, a darparu awgrymiadau i helpu pobl i fod yn fwy hygyrch. Gallwch danysgrifio trwy anfon e-bost i easyread@ldw.org.uk.

## Canllawiau am ddim i'r menopos a'r perimenopos

Gwnaethom gyd-gynhyrchu canllawiau dwyieithog hawdd eu deall am y menopos. Helpodd yr Elusen Menopos i sicrhau bod yr wybodaeth yn glinigol gywir. Helpodd Triniaeth Deg i Ferched Cymru ni i sicrhau ein bod yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen ar bobl. Gwiriodd Pobl yn Gyntaf Cwm Taf y canllawiau i wneud yn siŵr eu bod yn hawdd eu darllen a'u deall. Rydym yn edrych ymlaen at greu mwy o adnoddau hawdd eu deall am ddim y flwyddyn nesaf.




## Prosiect Gwybodaeth am Frechu


Buom yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a grwpiau o bobl ag anabledd dysgu i wneud gwybodaeth hygyrch am frechiadau. Lansiwyd y llyfrynnau hawdd eu deall a'r fideo hygyrch ym mis Tachwedd. Gwnaethom rannu'r hyn yr oeddem wedi'i ddysgu o'r prosiect yn ein cynhadledd flynyddol.




## Canllawiau i wneud deunyddiau yn y Gymraeg yn hawdd eu deall

Diweddarwyd ein canllawiau ar gyfer gwneud gwybodaeth hawdd ei deall yn Gymraeg. Buom yn gweithio gyda'n cyfieithwyr hawdd eu deall, pobl ag anabledd dysgu, Comisiynydd y Gymraeg ac Iaith Cymru (Canolfan Cynllunio Ieithyddol Cymru) i wneud yn siŵr bod ein canllaw yn helpu pobl i ddarparu gwybodaeth hygyrch o ansawdd uchel yn Gymraeg.

Byddwn yn rhannu'r canllawiau wedi'u diweddaru yn fuan fel bod pawb – o bobl ag anabledd dysgu sy'n siarad Cymraeg, i gyfieithwyr a phobl sy'n comisiynu gwaith hawdd ei ddeall – yn gallu elwa o'r gwaith hwn.



# Hyfforddiant a digwyddiadau

## Uchafbwyntiau

- **Daeth 204 o bobl i'n cynhadledd flynyddol yng Nghasnewydd a Chyffordd Llandudno.**
- **Roedd y gynhadledd yn trafod iechyd a lles.**
- **Dywedodd y rhan fwyaf o bobl a ddaeth i'n cynhadledd flynyddol ei bod yn dda iawn neu'n dda.**
- **Gwnaethom gynnal 3 digwyddiad gydag RNIB Cymru ynghylch sut i gefnogi pobl ag anabledd dysgu sydd wedi colli eu golwg.**
- **Daeth 56 o bobl i'n cyrsiau hyfforddi ynghylch gwneud gwybodaeth yn hygyrch.**

## Cynhadledd flynyddol – Caru eich iechyd

Digwyddiad mwyaf y flwyddyn oedd ein cynhadledd flynyddol, Caru eich iechyd, yng Nghyffordd Llandudno a Chasnewydd. Daeth 74 o bobl yn bresennol i'r gynhadledd yng ngogledd Cymru a daeth 130 i'r digwyddiad yn ne Cymru.

Daeth y gynhadledd â phobl ynghyd i siarad am iechyd a lles pobl ag anabledd dysgu, sy'n dueddol o fod ag iechyd gwaeth ac sydd mewn mwy o berygl o ddatblygu cyflyrau iechyd amrywiol, o gymharu â phobl heb anabledd dysgu.

Cafodd y rhan fwyaf o'r cyflwyniadau, y ddrama a'r gweithdai eu cyflwyno neu eu cyd-gyflwyno gan bobl ag anabledd dysgu ac roeddent yn ymdrin â phynciau fel Proffiliau Iechyd, Gwiriadau Iechyd Blynyddol, y menopos, iechyd rhywiol, brechlynnau a lleihau meddyginiaeth seicotropig amhriodol.

Dywedodd 99% o'n cynadleddwyr fod y digwyddiad yn dda iawn neu'n dda.

Mae fideos ac adnoddau o'r gynhadledd ar ein gwefan yn [www.ldw.org.uk/cy/event/caru-eich-iechyd](www.ldw.org.uk/cy/event/caru-eich-iechyd)











**Gwneud gwybodaeth yn hawdd ei darllen a'i deall**
Cyflwynwyd y cwrs ar-lein poblogaidd hwn 4 gwaith. Cafodd 56 o bobl yr hyfforddiant, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, addysg bellach ac uwch, a'r trydydd sector.




**Ffrindiau Golwg: Deall colled golwg**
Mewn partneriaeth ag RNIB Cymru, gwnaethom gynnal 3 sesiwn ddysgu (2 ar-lein ac 1 wyneb yn wyneb), i godi ymwybyddiaeth o golled golwg mewn pobl ag anabledd dysgu a sut i gefnogi pobl yn effeithiol.



# Dylanwadu ar bolisi

## Uchafbwyntiau

- **Gwnaethom ymateb i 12 ymgynghoriad.**
- **Rhoddwyd tystiolaeth i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar addysg gynhwysol.**
- **Roedd y materion y buom yn gweithio arnynt yn cynnwys ail-agor gwasanaethau dydd, tocynnau bws, cymdeithas ddi-arian parod ac addysg.**
- **Gwnaethom siarad yng Ngrŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu, y Grŵp Polisi Anabledd Dysgu, a'r Consortiwm Anabledd Dysgu.**
- **Gwnaethom helpu i gynllunio digwyddiad i rannu canfyddiadau'r prosiect ymchwil ar Covid-19.**

## Ymgynghoriadau

Gwnaethom ymateb i 12 ymgynghoriad i sicrhau y caiff hawliau pobl ag anabledd dysgu eu hadlewyrchu mewn polisïau a deddfwriaeth. Darparwyd tystiolaeth ar weithrediad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng Nghymru. Rhoesom dystiolaeth hefyd i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar addysg gynhwysol a'r heriau mae plant anabl yn eu hwynebu yn y system bresennol.

Gwnaethom gynrychioli'r materion sy'n effeithio ar bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd trwy ystod eang o rwydweithiau gan gynnwys gweithgorau'r Tasglu Hawliau Anabledd, grŵp rhanddeiliaid yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA).



## Grŵp Polisi Anabledd Dysgu

Gwnaethom barhau i hwyluso'r Grŵp Polisi Anabledd Dysgu a threfnu 4 cyfarfod yn ymdrin ag ystod o faterion gan gynnwys gwasanaethau dydd, tocynnau bws, cymdeithas ddi-arian parod, addysg ôl-16 a thoriadau i wasanaethau.

## Consortiwm Anabledd Dysgu

Gwnaethom gydlynu'r Consortiwm Anabledd Dysgu gyda'n partneriaid Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, Cymorth Cymru, Cymdeithas Syndrom Down a Mencap Cymru. Gwnaethom ymgyrchu ar faterion gan gynnwys gwiriadau iechyd blynyddol, adolygu marwolaethau a chynnydd y cynllun gweithredu anabledd dysgu.




## Prosiect ymchwil ynghylch Covid-19

Buom yn gweithio gyda phartneriaid prosiect yng Nghymru i drefnu digwyddiad yng Nghaerdydd yn amlygu canfyddiadau 4edd don yr astudiaeth ac yn dathlu 40 mlynedd ers Strategaeth Cymru Gyfan.

## Grŵp Cynghori'r Gweinidool ar Anabledd Dysgu

Fel aelodau o'r grŵp hwn, aethom i gyfarfodydd chwarterol i drafod materion gan gynnwys iechyd, gwell cymorth cymunedol, a sut y gall pobl o fwyafrifoedd byd-eang gael mynediad at wasanaethau a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

## Rhoi'r gwybodaeth ddiweddaraf ichi

Mae ein gwaith cyfathrebu'n ymdreiddio i bopeth a wnawn, o roi cyhoeddusrwydd i'n digwyddiadau, prosiectau a gwaith polisi, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am anabledd dysgu.

Roedd y pynciau a drafodwyd ar ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol yn cynnwys:

- Sut mae cyllideb Llywodraeth Cymru'n effeithio ar bobl ag anabledd dysgu
- Rheoliadau newydd ar gyfer ysgolion arbennig preswyl
- Mynediad at wasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc
- Pam rydym yn cymryd rhan yn Pride
- Presgripsiynu cymdeithasol.

Ym mis Tachwedd, gwnaethom ychwanegu adran Tudalennau Hawdd at ein gwefan: www.ldw.org.uk/cy/easy-pages



# Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change

engagetochange.org.uk
/engagetochangewales
@Engage_2_Change

## Uchafbwyntiau

- **Cafodd 41% o'r 1,075 o bobl ifanc a gefnogwyd yn ystod 7 mlynedd y prosiect swydd â thâl.**
- **Rhoddwyd gwobrau i 16 o gyflogwyr am eu gwaith yn cefnogi a chyflogi pobl ifanc ar y prosiect.**
- **Daeth dros 100 o bobl i'n digwyddiad ym Mae Caerdydd i rannu canlyniadau'r prosiect.**
- **Cynhyrchwyd 6 adroddiad ymchwil a gwerthuso a 4 fideo hygyrch am yr ymchwil.**
- **Amlygwyd y prosiect fel enghraifft o arfer da yn adroddiad Dr Hefin David AS, Pontio i Gyflogaeth.**

**Daeth prosiect Engage to Change i ben ddiwedd mis Mai 2023. Roedd y data terfynol yn dangos bod y prosiect wedi llwyddo i ddarparu cymorth cyflogaeth trwy hyfforddiant swydd i 1,075 o bobl ifanc a chyflwyno 244 o interniaethau â chymorth - gan gyflawni cyfradd cyflogaeth â thâl gyffredinol o 41%. Mae hyn o'i gymharu â chyfradd gyflogaeth amcangyfrifedig o 4.8% ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn Lloegr (BASE, 2023).**




Sicrhawyd cyllid i Anabledd Dysgu Cymru a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (NCMH) barhau i gydweithio tan fis Tachwedd 2024. Mae 'Dylanwadu a Hysbysu Engage to Change' yn ymwneud â bwrw ymlaen â pholisi, ymchwil a gwaith etifeddol y prosiect.

Rydym yn gweithio'n agos ag eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Senedd, awdurdodau lleol, colegau, byrddau iechyd, pobl â phrofiad byw a'u teuluoedd.

Y flwyddyn hon, gwnaethom gyflwyno gwobrau i 16 o gyflogwyr ledled Cymru am eu gwaith rhagorol yn cefnogi a chyflogi cyfranogwyr y prosiect.




Gwnaethom orffen ein fideos Llwybr at Waith, a oedd yn cynnwys ein llysgennad arweiniol Gerraint Jones-Griffiths, pobl ifanc a gafodd swydd drwy'r prosiect a'u cyflogwyr. Gellir dod o hyd iddynt ar wefan a chyfryngau cymdeithasol Engage to Change, ac ar wefan Gyrfa Cymru.



Ym mis Medi, daethom â phobl ynghyd i rannu canlyniadau'r prosiect, gan gynnwys canfyddiadau ymchwil a straeon gan gyfranogwyr. Cafodd y digwyddiad ei noddi gan Vaughan Gething AS, a'i gynnal yn adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd. Roedd 100 o bobl yn bresennol, gan gynnwys Aelodau'r Senedd a gohebydd BBC Cymru, Garry Owen, gyda 140 o bobl eraill yn gwylio'r llif byw.

Ym mis Tachwedd, cawsom sylw ar BBC Wales Today, teledu BBC Cymru Fyw a gwefan Newyddion BBC Wales. Roedd y ddarpariaeth newyddion yn cynnwys cyfweliadau â chyfranogwyr y prosiect a chyflogwyr, Dr Hefin David AS, a Vaughan Gething AS, y Gweinidog dros yr Economi ar y pryd. Cafodd y Rheolwr Prosiect Angela Kenvyn ei chyfweld yn fyw hefyd ar raglen frecwast BBC Radio Wales.

Parhaodd NCMH i gynhyrchu adroddiadau ymchwil a gwerthuso, a buom yn gweithio gyda phobl ifanc a rhieni i gynhyrchu fideos hygyrch o'r adroddiadau.

Rhoddodd y llysgennad arweiniol Gerraint, ynghyd ag NCMH, gyflwyniadau i grwpiau rhieni/gofalwyr, Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd a grŵp llywio strategaeth gyflogaeth Gogledd Cymru ar y Cyd. Gwnaethant bodlediad gyda Phrifysgol Caerdydd hefyd, a chynhyrchodd Gerraint awgrymiadau da ar gyfer cyflogaeth, blogiau a fideos am ei waith.



# Dylanwadu a Hysbysu
# Engage to Change



## Gwaith polisi cyflogaeth

Buom yn cyfarfod yn rheolaidd â Dr Hefin David AS a dylanwadodd y cyfweliad a roddodd ein Rheolwr Prosiect Angela i'r BBC ar gynnwys ei adroddiad Pontio i Gyflogaeth. Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i Engage to Change fel arfer da ac yn gwneud argymhellion am brofiad gwaith a hyfforddiant swydd.

Cafodd yr adroddiad ei drafod yn y Senedd a chafwyd ymateb da iddo. Roedd Angela, Gerraint a'n Swyddog Cyfathrebu llawrydd Daniel yn bresennol i wylio'r ddadl a chawsant eu cyflwyno i aelodau'r Senedd gan Dr Hefin David AS, gan gynnwys trafodaeth gyda Jayne Bryant AS.

Rhannwyd gwybodaeth am y prosiect ac adroddiadau gwerthuso ag Eluned Morgan AS, a oedd wedi dod i'n digwyddiad.

Parhaodd Angela i gyfarfod â Llywodraeth Cymru ynghylch darparu cymorth hyfforddwr swydd drwy'r holl raglenni cyflogadwyedd a sgiliau.

Gwnaethom gymryd rhan yng Ngweithgor Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru, Fforwm Mynediad at Waith Cymru, Grŵp Llwybr 4 Colegau Cymru a pharhau i weithio gyda Thîm Trawsnewid Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd i orffen y strategaeth gyflogaeth 5 mlynedd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

Ymunodd Angela â Grŵp Rhanddeiliaid Gwarant Pobl Ifanc Llywodraeth Cymru a chadeiriodd gyfarfod ynghylch profiad gwaith. Cymerodd Gerraint ran yn is-grŵp Cyflogaeth ac Incwm Tasglu Hawliau Anabledd Llywodraeth Cymru.

# Ffrindiau Gig Cymru

## www.ffrindiaugig.cymru

### Uchafbwyntiau

- **Gwnaethom recriwtio 27 o wirfoddolwyr newydd a pharu 19 o barau Ffrindiau Gig.**
- **Bellach mae gennym ni 17 pâr o Ffrindiau Gig yng ngogledd Cymru a 46 pâr yn ne Cymru.**
- **Mae Ffrindiau wedi helpu gyda stondinau, taflenni, cynllunio digwyddiadau cymdeithasol, a chyfweliadau gyda'r cyfryngau.**




## Ar draws y prosiect

- Sefydlu Credydau Amser Tempo ar gyfer gwirfoddolwyr, sy'n cael 'gwobrau' fel tocynnau theatr a sinema am ddim. Mae cyfranogwyr sy'n gwirfoddoli gyda ni hefyd yn derbyn Credydau Amser.
- Meddiannu 'Minty's Gig Guide' yn ystod Wythnos Anabledd Dysgu, gyda chyfranogwr o Gaerdydd, Richie, yn adolygu ac yn rhoi awgrymiadau gig. Rhoddodd Richie sgwrs i 70 o bobl o Ofal Cymdeithasol Cymru hefyd.
- Cyflwyno mewn fforwm Hynt, y cynllun mynediad cenedlaethol ar gyfer lleoliadau, lle buom hefyd yn siarad am broblem lleoliadau di-arian parod.
- Gwneud canllaw hawdd ei ddeall am 'wneud pethau gyda'n gilydd yn rhad' i helpu gyda'r argyfwng costau byw.
- Cynnal parti Nadolig Byd-eang gyda Ffrindiau o Gymru, yr Alban, Iwerddon ac Awstralia yn cael hwyl gyda'i gilydd ar-lein.
- Mae Victoria Waller yn parhau i wneud gwaith gwych fel ein gwirfoddolwr cynnwys cyfryngau cymdeithasol. Mae gennym 2,700 o ddilynwyr ar Facebook, 1,500 ar Twitter a 900 ar Instagram.

# Ffrindiau Gig Cymru

## De Cymru

**(Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, RhCT, Bro Morgannwg)**

**Cymdeithasu:** Gwnaethom gymryd rhan yn Pride Cymru. Trefnu carioci gyda'r hwyr mewn clwb nos ar gyfer cynhadledd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan. Mynd i ddigwyddiad y Wobr Gerddoriaeth Gymreig, lle gwnaeth Ffrindiau gwrdd ag enwogion a gwylio perfformiadau. Dathlwyd pen-blwydd 'ein' Kylie ni yn 40 oed yn CultVR, gyda pherfformiadau gan grŵp theatr Kylie's Kitsch n Sync. Daeth parau naturiol i fodolaeth o'n 3 noson 'gwibgyfeillio'. Mae rhai cyfranogwyr bellach yn cynllunio eu digwyddiadau cymdeithasol eu hunain gyda'i gilydd.




**Codi ymwybyddiaeth:** Roedd gennym stondinau mewn ffeiriau gwirfoddoli, lleoliadau a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Tai Dewis Cyntaf, lle gallai tenantiaid 'ddylunio eu crysau-t eu hunain'. Aethom i ddigwyddiad 'Mae Bywydau Du o Bwys' i ddenu mwy o bobl o fwyafrifoedd byd-eang.

**Band Ffrindiau Gig:** Sefydlwyd band newydd gyda Tŷ Cerdd, gyda cherddorion proffesiynol yn helpu Ffrindiau i ddysgu chwarae offerynnau.



**Hanner Marathon Caerdydd:** Cododd 20 rhedwr £8,000! Roedd Ffrindiau yn eu cefnogi, a buom yn cymdeithasu wedyn.



**Gwirfoddoli fel Ffrind Gig**
**www.ffrindiaugig.cymru**



## Gogledd Cymru

**(Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam)**

Croesawyd John i'r tîm ym mis Ebrill, diolch i gyllid gan Grant Gwirfoddoli WCVA.

**Cymdeithasu:** Cynhaliwyd digwyddiadau cymdeithasol mewn tafarndai a bwytai yn Sir y Fflint, Bangor a Dinbych, a gwnaethom gefnogi 3 chyfranogwr i gynllunio eu digwyddiadau cymdeithasol eu hunain. Gwnaethom helpu Ffrindiau i ddatblygu cyfeillgarwch gyda'i gilydd trwy greu cymheiriaid Ffrindiau Gig. Darparodd Mark Jones gyngor fel ein cynghorydd cludiant gwirfoddol.

**Codi ymwybyddiaeth:** Aethom i Ŵyl Ffocws Cymru, Philfest yn Ynys Môn, Sioe Amaethyddol y Fflint/Sir Ddinbych, digwyddiad nyrsio iechyd meddwl, a Hyb Lles Wrecsam. Buom yn gweithio'n agos gyda First Choice Housing, Outside Lives, Prifysgol Bangor, PIWS (sy'n helpu i wella hygyrchedd) ac yn cymryd rhan yn y Rhwydwaith Cynllunio Person-ganolog.









## Max a Mei, Ffrindiau Gig

Mae Max a Mei wedi bod yn ffrindiau ers tro. Roedd Mei yn gwybod am Max ac yn ei gofio fel cefnogwr miwsig yr enaid, yn casglu finyl yn frwd ac yn arbenigwr ar ddyddiadau rhyddhau ei hoff ganeuon. Mae sgyrsiau'n llifo pan fydd y 2 allan mewn gigiau. Cawsant eu cyfweld ar BBC Radio Cymru am eu cyfeillgarwch, sydd wedi tyfu dros y blynyddoedd, gyda Mei yn dod yn ffrind cyson a chefnogol ym mywyd Max.



# Pobl yr 21ain Ganrif

Pobl yr 21ain Ganrif

## Uchafbwyntiau

- **Gwnaethom rannu canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar sut i gefnogi rhieni ag anabledd dysgu.**
- **Gwnaethom gefnogi 2 Aelod anabl o Senedd Ieuenctid Cymru i godi llais ar faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc anabl yng Nghymru.**
- **Trefnwyd 4 cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu i siarad am faterion megis gwasanaethau dydd, pleidleisio hygyrch a thocynnau bws.**
- **Rhoddwyd tystiolaeth i'r Senedd am y rhwystrau y mae plant a phobl ifanc ag anabledd dysgu yn eu hwynebu mewn ysgolion a cholegau.**
- **Ymunodd dros 70 o bobl â'n digwyddiad Cysylltiadau Cymru am wasanaethau dydd.**

Mae Pobl yr 21ain Ganrif wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n dathlu pobl ag anabledd dysgu fel crewyr, cyfranwyr a dinasyddion Cymru, tra'n herio'r stereoteipiau presennol.



## Teuluoedd yr 21ain Ganrif

### Rhieni ag anabledd dysgu

Gwnaethom gynghori Llywodraeth Cymru ar hyrwyddo'r canllawiau newydd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol i deuluoedd, lle mae gan y rhiant anabledd dysgu, a monitro eu heffaith. Gwnaethom rannu'r canllawiau ar ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol a gwahodd ymchwilydd a ddatblygodd y canllawiau i siarad yn un o gyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol. Gwnaethom hefyd gyhoeddi erthygl ar ein gwefan am y gwahaniaeth y gall y cymorth cywir ei wneud i deuluoedd lle mae gan riant anabledd dysgu.

Gwnaethom barhau i gefnogi grŵp rhieni Pobl yn Gyntaf y Fro i gyfarfod, rhannu eu profiadau a darparu cefnogaeth cymheiriaid i'w gilydd. Gwnaethom ymuno â phrosiect Cyswllt Rhieni Cymru Plant yng Nghymru i rannu barn rhieni ag anabledd dysgu.

# Lleisiau'r 21ain Ganrif

SEFYDLIAD PARTNER
PARTNER ORGANISATION

## Senedd Ieuenctid Cymru




Gwnaethom barhau i gefnogi 2 berson ifanc anabl fel Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru. Roedd hyn yn cynnwys Georgia yn rhoi tystiolaeth yn y Senedd ar addysg gynhwysol a Tegan yn holi'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn y Senedd ynghylch mynediad at gymorth iechyd meddwl i bobl ifanc anabl. Gwnaethom gynorthwyo Tegan i ddrafftio ei chwestiwn a'i chefnogi i ysgrifennu erthygl newyddion ar gyfer ein gwefan.



Gwnaethom helpu Georgia i baratoi datganiad ar gyfer cyfarfod olaf Senedd Ieuenctid Cymru yn y Senedd ynghylch 40 mlynedd ers Strategaeth Cymru Gyfan a pham na ddylai pobl ag anabledd dysgu gael eu cloi i ffwrdd mewn ysbytai. Siaradodd ein Rheolwr Polisi a Chyfathrebu yn lansiad arddangosfa Senedd Ieuenctid Cymru am ein profiad fel sefydliad partner.

## Hyfforddant hawdd ei ddeall

Gwnaethom ddarparu 9 sesiwn blasu hawdd eu ddeall am ddim i gyfanswm o 170 o bobl ledled Cymru. Daeth y bobl a oedd yn bresennol o awdurdodau lleol, prifysgolion, y GIG a sefydliadau'r trydydd sector.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

## Polisi a phobl - y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu


Yn ein rôl fel cyd-Ysgrifenyddion gwnaethom drefnu 4 cyfarfod. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys: tocynnau bws, canllawiau ar gefnogi rhieni ag anabledd dysgu, ailagor gwasanaethau dydd ers y pandemig, addysg ôl-16 arbenigol a phleidleisio hygyrch.

Yn dilyn y cyfarfodydd, gwnaethom gynhyrchu cofnodion hawdd eu deall a drafftio llythyrau gan y Cadeirydd, Sioned Williams AS, at wahanol gyrff cyhoeddus yn gofyn am roi newidiadau ar waith.

## Pobl Iach yr 21ain Ganrif

### Gwiriadau iechyd blynyddol

Gwnaethom barhau i ymgyrchu dros sicrhau bod y pecyn adnoddau meddygon teulu hawdd ei ddeall ar gael ar wefan GIG 111 Cymru. Gwnaethom gynnwys cyflwyniadau am bwysigrwydd gwiriadau iechyd blynyddol yn Caru eich iechyd, sef ein cynhadledd flynyddol.




### Lleihau arferion cyfyngol

Aeth ein Rheolwr Polisi a Chyfathrebu i gynhadledd flynyddol y Rhwydwaith Lleihau Cyfyngiadau i ddysgu am y datblygiadau diweddaraf o ran lleihau arferion cyfyngol o bob rhan o'r byd.

Gwnaethom helpu i drefnu gweminar beilot ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar leihau arferion cyfyngol ochr yn ochr â Gwelliant Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru.

Aethom i 2 gyfarfod o'r grŵp Diogelu Hawliau, Dileu Cyfyngiadau i rannu arbenigedd ac arfer gorau ar draws 4 gwlad y DU. Gwnaethom barhau i fynychu cyfarfodydd Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol Cymru Gyfan.



Gwnaethom gynghori Iechyd Cyhoeddus Cymru ar wneud adnoddau hygyrch ar gymorth ymddygiad cadarnhaol i rieni ag anabledd dysgu. Gwnaethom gyfarfod â Bwrdd Iechyd Bae Abertawe i drafod cynhyrchu fideos ac e-ddysgu ar gymorth ymddygiad cadarnhaol a lleihau arferion cyfyngol.

## Byw yn yr 21ain Ganrif

### Cysylltiadau Cymru

Mae'r rhwydwaith hwn yn archwilio sut y gallwn fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd. Yn dilyn digwyddiad y llynedd, gwnaethom gyhoeddi erthygl ar ein gwefan am bresgripsiynu cymdeithasol. Pwnc eleni oedd gwasanaethau dydd gyda digwyddiad ar-lein yr oedd 70 o bobl yn bresennol ynddo. Soniodd amrywiaeth o sefydliadau a phobl ag anabledd dysgu am wasanaethau dydd, profiadau da a drwg, dewis a chynhwysiant a'r hyn sydd o'u blaenau.




### Addysg gynhwysol

Rhoddwyd tystiolaeth i bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar yr heriau y mae plant anabl yn eu hwynebu yn y system addysg yng Nghymru. Gwnaethom hefyd gefnogi Georgia, Aelod Senedd Ieuenctid Cymru, i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.





# Ein hymddiriedolwyr a'n haelodau

## Ymddiriedolwyr

Mae ein hymddiriedolwyr yn cwblhau tymor o 3 blynedd ac fe etholir ymddiriedolwyr newydd yn ein CCB bob blwyddyn. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn ymddiriedolwr, anfonwch e-bost at joanne.moore@ldw.org.uk.

| **Cymuned Fuddiant**<br>Cynrychiolwyr sy'n Aelodau llawn | **Nifer y seddi** | **Ymddiriedolwyr** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|---|---|
| Darparwyr gwasanaethau i Oedolion | 2 | Rhian Jones<br>Claire Higgins | Drive<br>Anheddau Cyf |
| Hunaneiriolaeth | 2 | Joe Powell<br><br>Angharad Williams | Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan<br>Eiriolaeth Eich Llais |
| Gofalwyr teuluol | 2 | Jacqui Caldwell<br>Richard Cox<br>**Lle gwag** | Cyswllt Conwy<br>Ategi |
| Darparwyr cymorth i deuluoedd | 2 | Alison Thomas<br>Wayne Crocker | Grŵp Pobl<br>Mencap Cymru |
| Cyflogaeth â chymorth | 1 | Lily Beyer<br>**Lle gwag** | BASE UK |

| **Seddi agored** | **Nifer y seddi** | **Ymddiriedolwyr** |
|---|---|---|
| Unigolion â diddordeb | 5 (hyblyg) | Jon Day, Sian Owen, Laura White, Ian Benbow<br>James Donaldson, Al Lewis |

## Cynghorwyr:


Steve Beyer a Kathryn Whitfield

## Ein Haelodau

| **Math o aelodaeth** | **Nifer yr aelodau** |
|---|---|
| **Aelodau Llawn** | 95 |
| **Aelodau Cyswllt** | 237 |




# Sut y gwnaethom wario ein harian



## Yr arian a gawsom y flwyddyn hon

| Ffynhonnell yr arian | Swm |
|---|---|
| Grant Llywodraeth Cymru | £400,000 (41.62%) |
| Prosiectau yn y DU | £339,322 (35.30%) |
| Hyfforddiant a Digwyddiadau | £25,006 (2.60%) |
| Ymgynghori, rhwydweithiau a gwasanaethau cynnal | £165,353 (17.20%) |
| Rhoddion | £17,448 (1.82%) |
| Llog Banc | £13,995 (1.46%) |
| **Cyfanswm** | **£961,124 (100.00%)** |



## Yr arian a wariwyd gennym y flwyddyn hon

| Categori | Swm |
|---|---|
| Staff a theithio | £633,261 (63.37%) |
| Grantiau i bartneriaid prosiect yn y DU | £177,060 (17.72%) |
| Cyrsiau a chynadleddau | £43,066 (4.31%) |
| Gofalu am ein hadeilad | £36,856 (3.69%) |
| Digwyddiadau prosiectau | £24,420 (2.44%) |
| Cynnal y swyddfa | £31,882 (3.19%) |
| Costau llawrydd | £21,244 (2.13%) |
| Cyfieithu | £18,268 (1.83%) |
| TAW na ellir ei hadennill | £8,373 (0.84%) |
| Ffioedd archwilio | £3,960 (0.40%) |
| Dibrisiad | £642 (0.06%) |
| Cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr | £262 (0.03%) |
| **Cyfanswm** | **£999,294 (100.00%)** |

## Canlyniad ddiwedd y flwyddyn:

**Mae'r diffyg o £38,170 yn cynnwys diffyg anghyfyngedig ar ôl trosglwyddiadau o £32,288 a diffyg cyfyngedig o £5,882.**

# Our year in pictures
# Ein blwyddyn mewn lluniau



























FESTIVE
DRINKS

# Ein blwyddyn mewn rhifau

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

www.ldw.org.uk

## Dylanwadu ar bolisi




12 ymateb i ymgynghoriadau



4 cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu



4 cyfarfod o'r Grŵp Polisi Anabledd Dysgu

## Hyfforddiant a digwyddiadau



Daeth 204 o bobl i'n cynhadledd flynyddol yng Nghasnewydd a Chyffordd Llandudno



3 sesiwn ar-lein gyda RNIB ynghylch cefnogi pobl ag anabledd dysgu sydd wedi colli eu golwg



Daeth 226 o bobl i hyfforddiant ynghylch gwneud gwybodaeth yn hygyrch

## Hawdd ei Ddeall Cymru

Hawdd ei Ddeall

140 o ddogfennau



50 o gleientiaid



4 llyfryn hawdd eu deall am ddim am y menopos

## Engage to Change



Cafodd 41% o'r 1,075 o bobl ifanc a gefnogwyd dros y 7 mlynedd waith cyflogedig




6 adroddiad ymchwil a gwerthuso



4 fideo hygyrch am ein hymchwil



Gwobrwywyd 16 busnes am eu cymorth i bobl ifanc

## Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chi



16,407 o ymwelwyr â'r wefan



Ymwelwyd â 45,773 o dudalennau gwe

1 cyfrif Instagram newydd yn rhannu straeon gweledol

6,049 o ddilynwyr ar Facebook

## Ffrindiau Gig Cymru



19 o barau Ffrindiau Gig wedi'u paru



27 o wirfoddolwyr wedi'u recriwtio



Mwynheuodd 20 o Ffrindiau barti yn nigwyddiad Gwobrau Cerddoriaeth Cymru



18 o ddigwyddiadau cymdeithasol